Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: WQ85610

Rhys ab Owen AS

Rhys.abOwen@senedd.cymru

22 Gorffennaf 2022

Annwyl Rhys,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch Cwestiwn Ysgrifenedig: WQ85610.

O dan adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd, ni chaniateir pasio Bil y mae'n ofynnol iddo gael cydsyniad Ei Mawrhydi neu Ddug Cernyw oni bai bod y cydsyniad hwnnw wedi'i ddynodi i'r Senedd.

Unwaith y bydd wedi'i ddarparu, bydd Gweinidogion yn dynodi'r cydsyniad i'r Senedd yn unol â gofyniad Rheol Sefydlog 26.67, ac mae hyn yn rhan o'r Cofnod cyhoeddedig.

Ers 2011, pan gafodd y Senedd y pwerau i basio Deddfau, mae cydsyniad i 12 o Filiau wedi'i ddynodi, sef:

Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) [Bil Aelod]
Bil Tai (Cymru)
Bil Cynllunio (Cymru)
Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)
Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
Bil yr Amgylchedd (Cymru)
Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)
Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)
Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)
Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)
Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad, a'r Teyrn yn cytuno ar y cydsyniad hwnnw, yn ôl yr arfer, fel mater o drefn. Nid yw'r Teyrn byth wedi gwrthod cydsyniad i Filiau yn yr oes fodern.

Yn gywir,



MARK DRAKEFORD